Dŵr at fyw a bywoliaeth



# Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren

## Asesiad Amgylcheddol Strategol:

## Datganiad Manylion

Diweddarwyd Rhagfyr 2015

LIT 10328

## Asiantaeth yr Amgylchedd

Ni yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn cefnogi ac yn gwella'r amgylchedd ac yn ei wneud yn lle gwell i bobl ac i fywyd gwyllt.

Rydym yn gweithredu lle mae newid amgylcheddol yn cael yr effaith mwyaf ar fywydau pobl. Rydym yn lleihau'r peryglon o lifogydd i bobl ac i eiddo; yn gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr i bobl a bywyd gwyllt; yn gwarchod ac yn gwella ansawdd yr aer, tir a dŵr ac yn defnyddio'r safonau amgylcheddol y gall diwydiant weithio ynddynt.

Mae gweithredu i leihau newid hinsawdd ac i helpu pobl a bywyd gwyllt addasu i'w ganlyniadau yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y llywodraeth, busnesau, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, grwpiau cymdeithas sifil a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru yn cael eu cadw, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio ar gyfer cymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi gymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddeall, defnyddio a manteisio ar gyfoeth naturiol Cymru.

Byddwn yn gweithio ar gyfer economi Cymru ac yn galluogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn i newid hinsawdd a phwysau eraill.

Cyhoeddwyd gan:

Environment Agency
Horizon house, Deanery Road,
Bristol BS1 5AH
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.gov.uk/environment-agency

© Asiantaeth yr Amgylchedd 2016

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad ar gael yn ein catalog cyhoeddiadau:
www.gov.uk/government/publications

Neu o'n Canolfan Cyswllt Cwsmer Cenedlaethol:
Ff: 03708 506506

e-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

## Contents

**Cyfoeth Naturiol Cymru .......... 2**

**1. Rhagarweiniad .......... 5**

1.1. Cynlluniau Rheoli Basn Afon .......... 5

1.2. Asesiad Amgylcheddol Strategol .......... 6

**2. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i gynllun rheoli basn Afon Hafren .......... 7**

2.1. Paratoadau'r Cynllun .......... 7

2.2. Ymrwymiad ac ymgynghoriad rhanddeiliaid .......... 7

2.3. Asesiad Amgylcheddol Strategol .......... 8

2.4. Asesiad Rheoliadau Cynefin .......... 8

**3. Priodoli yr adroddiad amgylcheddol .......... 8**

**4. Priodoli barn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad amgylcheddol 12**

**5. Rhesymau dros fabwysiadu RBMP Hafren yn ei ffurf derfynol .......... 17**

**6. Sut y bwriedir monitro'r effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth weithredu'r RBMP .......... 18**

# 1. Rhagarweiniad

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn (Strategic Environmental Assessment - SEA), Datganiad Manylion (SoP) yn gosod allan sut mae canfyddiadau Adroddiad Amgylcheddol o Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren a'r farn a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cael eu hystyried a sut y cafodd y RBMP ei gwblhau a'i gymeradwyo'n ffurfiol.

Mae Datganiad Manylion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad statudol o dan Asesiad Amgylcheddol o Gynllunio a  Rhaglenni 2004 (Rheolaethau Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac yn crynhoi:

- sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi eu hintegreiddio i Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren
- sut y priodolwyd yr Adroddiad Amgylcheddol
- sut y priodolwyd y farn a fynegwyd mewn ymatebiad i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol
- y rhesymau dros fabwysiadu RBMP Hafren yn ei ffurf derfynol
- sut y bydd monitro'r effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth weithredu RBMP Hafren  yn cael ei gyflawni

## 1.1. Cynlluniau Rheoli Basn Afon

Mae pwrpas cynllun rheoli basn afon (RBMP) yn cael ei osod yn Canllawiau ar Faterion Gweinidogion DU:

"Dylai RBMP fod yn gynllun strategol sy'n rhoi mesur o sicrwydd i bawb sy'n ymwneud ag ardal basn yr afon am ddyfodol rheolaeth dŵr yn yr ardal honno.  Bydd yn cynnwys amcanion ar gyfer pob corff dŵr a chrynodeb o'r rhaglen o fesurau angenrheidiol er mwyn cyrraedd yr amcanion hynny ."

Noda Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) bod yn rhaid i aelod-wladwriaeth gyfarfod yr amcanion canlynol:

- atal dirywiad yn statws dŵr wyneb a dŵr daear
- cyflawni amcanion a safonau 'Ardal dan Warchodaeth'
- anelu at gyflawni statws da ar gyfer pob corff dŵr
- anelu at gyflawni potensial ecolegol da yn ogystal â statws cemegol da ar gyfer y dyfroedd artiffisial a chyrff dŵr wedi eu haddasu'n sylweddol

Wrth baratoi'r diweddariad ar gyfer y RBMP, ymgynghorodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mehefin 2013 ar yr ystod o 'Faterion Rheoleiddio Dŵr Arwyddocaol' (SWMIs) fyddai angen ystyriaeth er mwyn cyfarfod ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD).  Bu ymgynghoriad pellach yn Hydref 2014 ar ystod ymyriadau (y mesurau) a fyddai'n werth eu hystyried i osgoi dirywiad, cyflawni amcanion ardaloedd dan warchodaeth a chyfarfod ag amcanion statws corff dŵr.   Mesurau gwerth eu hystyried yw rhai sydd wedi cael eu hasesu ac sydd yn fuddiol o ran cost heb orfod ariannu na chyfyngiad amser arnynt.  Ar gyfer ardaloedd o Ardal Basn Afon Hafren yng Nghymru, priodolwyd mesurau i gyrff dŵr unigol, heb ystyriaeth i gostau ariannol a buddion i'w hystyried yn ystod y rhan yma o'r broses.  Yn dilyn yr ymgynghoriadau hyn, adolygwyd yr ystod o fesurau Materion Rheoleiddio Dŵr Arwyddocaol angenrheidiol a'u gosod allan yn y fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Rheoli Basn Afon fel mesurau o raglenni arfaethedig, o dan y penawdau canlynol:

- mesurau i osgoi dirywiad
- mesurau i gyflawni amcanion 2021
- mesurau i gyflawni amcanion 2027 neu du hwnt
- mesurau ychwanegol ar gyfer ardaloedd dan warchodaeth.

Mae ffocws y RPMP diwygiedig ar raglen o fesurau fydd yn cyflawni amcanion ar gyfer 2021. Mae'r rhain wedi eu tynnu o gynlluniau buddsoddi arfaethedig llywodraeth a sectorau allweddol, ac yn gosod allan fesurau lle mae hyder eu bod yn fforddiadwy, wedi eu cynllunio ar gyfer 2021 gyda disgwyliadau iddynt gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae fersiwn diwygiedig o'r RBMP yn rhoi crynodeb o'r graddau o Faterion Rheolaeth Dŵr Arwyddocaol (SWMIs)[1] y bydd y rhaglenni arfaethedig o fesurau yn mynd i'r afael â hwy fel a ganlyn:

- **Llygredd o ardaloedd gwledig** – yn effeithio ar 40% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon
- **Llygredd o ddŵr gwastraff** – yn effeithio ar 29% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon
- **Newidiadau ffisegol** – yn effeithio ar 27% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn
- **Llygredd o drefi, dinasoedd a chludiant** – yn effeithio ar 12% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon
- **Newidiadau i lif naturiol a lefel dŵr** – yn effeithio ar 7% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon
- **Llygredd o weithfeydd segur** - yn effeithio ar 2% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon
- **Effeithiau negyddol rhywogaethau estron goresgynnol** – yn effeithio ar <1% o gyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon.

## 1.2. Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae RBMP Afon Hafren angen Asesiad Amgylcheddol Strategol fel rhan o'r paratoadau o dan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Pwrpas yr SEA yw sicrhau bod gwybodaeth ar effeithiau amgylcheddol cynllun neu raglen yn cael ei chasglu ac ar gael pan fo'r cynllun yn cael ei baratoi a'i weithredu. Mae'r SEA yn gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru:

- adnabod, disgrifio a gwerthuso yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol o weithredu'r Cynllun ac unrhyw ddewisiadau eraill
- adnabod gweithrediadau i atal, lleihau neu wirio unrhyw effeithiau adweithiol cyn belled ag y bo modd
- darparu cyfleoedd cynnar ac effeithiol i ymgysylltu wrth baratoi'r cynllun - trwy ymgynghori
- monitro gweithrediad y cynllun i adnabod unrhyw effeithiau amgylcheddol heb eu rhagweld, gan weithredu i'w adfer lle bo'n angenrheidiol.
- adrodd yn ôl ar yr uchod mewn Adroddiad Amgylcheddol

Am fwy o wybodaeth ar sut y cafodd yr asesiad ei weithredu ynghyd â'r darganfyddiadau, edrychwch ar Adroddiad Amgylcheddol Afon Hafren.

https://ea.sharefile.com/d-s675d871caf94b198

[1] Nid yw llygredd o ddŵr mwynfeydd yn cael ei ystyried fel mater rheoli dŵr arwyddocaol. Er, mewn lleoedd o fewn RBD Hafren mae'n fater lleol pwysig, er enghraifft yn nalgylch rheoli Cymoedd y De Ddwyrain.

## 2. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i gynllun rheoli basn Afon Hafren

Roedd yr SEA yn un o nifer o ffyrdd y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio i'r RBMP, fel a ganlyn:

### 2.1. Paratoadau'r Cynllun

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi RBMP Hafren er mwyn cyflawni amcanion rheolaeth dŵr hirdymor fel y'i gosodwyd gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd. Canfuwyd proses o gynllunio'r basn afon nifer sylweddol o faterion rheolaeth dŵr oedd yn benodol ar gyfer Cynllun Datblygu Basn Afon Hafren fydd yn cael eu cyfeirio ato yn y fersiwn diwygiedig o'r RBMP er mwyn i holl gyrff dŵr yn ardal y basn afon gael eu gwella i gyrraedd statws "da".

Cyflwynodd **fersiwn diwygiedig o'r RBMP ar gyfer yr ymgynghoriad** ystod o fesurau hir-dymor i fynd i'r afael â'r Materion Rheolaeth Dŵr Arwyddocaol fyddai'n atal dirywiad, cyflawni amcanion ardal dan warchodaeth, a chwrdd ag amcanion statws corff dŵr. Ar gyfer ardaloedd yn Lloegr, gwerthuswyd yr holl fesurau fel costau buddiol neu yn werth eu gwneud heb unrhyw gyfyngiadau ar fod yn fforddiadwy na chyfyngiad amser ar gyfer gweithredu. Yng Nghymru aseiniwyd y mesurau i gyrff dŵr unigol heb gynnwys ystyriaethau ariannol a buddion yn y cyfnod hwn.

Mae'r fersiwn **diwygiedig o'r RBMP ar gyfer ei gyhoeddi** wedi eu seilio ar gynlluniau llywodraeth a sectorau allweddol er mwyn adnabod rhaglenni o fesurau mwy penodol fydd yn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn cyfyngiadau amser penodol. Lle bo hyder i gael llwyddiant erbyn 2021, bydd y fersiwn diwygiedig o'r RBMP yn cyflwyno rhaglen o fesurau sydd yn cael eu defnyddio i ragweld gwelliannau mewn statws corff dŵr yng nghylch 2 (2015 - 2021). Lle bo angen mesurau pellach i gwrdd ag amcanion corff dŵr, ond na ellir eu cyflawni ac nad ydynt yn fforddiadwy yn y cylch nesaf, yna bydd y diwygiad o'r RBMP yn parhau i gyflwyno amlinelliad i'r dyfodol ar gyfer 2027 a thu hwnt o fesurau gwerth eu hystyried. Yn ogystal â chwrdd â gwelliannau penodol corff dŵr, bydd y RBMP yn anelu i gyfrannu at ystod o fuddiannau ehangach i gymdeithas sydd wedi eu hadnabod yn yr SEA ac yn asesiad effaith cenedlaethol o Gynlluniau Rheoli Basn Afonydd.

### 2.2. Ymrwymiad ac ymgynghoriad rhanddeiliaid

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd wedi cael eu datblygu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru trwy weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid a sefydliadau. Mae cyfraniadau yn cynnwys diddordebau sylweddol mewn gwarchodaeth amgylcheddol leol a gwelliannau yn ogystal ag amcanon amgylcheddol penodol mewn cynlluniau manylach a lleol. Y prif bartneriaid yw:

**Paneli Cyswllt Ardal Basn Afon**: sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o sectorau allweddol a phartneriaethau dalgylch fydd yn chwarae rolau allweddol wrth weithredu mesurau a chyflawni prosiectau.

**Partneriaethau Dalgylch**: Trwy weithredu yn ôl dalgylch, mae modd pontio'r bwlch rhwng rheolaeth y cynllunio strategol ar lefel ardal basn afon a gweithgareddau ar raddfa corff dŵr lleol. Mae Partneriaethau dalgylch yn grwpiau o sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella'r amgylchedd yn eu hardal leol, ac yn cael eu harwain gan westywr sefydliad ardal. Maent yn rhoi gwybodaeth i broses gynllunio rheolaeth y basn afon gan roi cymorth i weithredu'r mesurau trwy:

- ddarparu tystiolaeth leol
- targedu a chydlynu gweithrediadau
- adnabod a chael mynediad i ariannu gwelliannau yn y dalgylch
- ymgorffori cynllun rheoli basn afon i reolaeth amgylcheddol ehangach o fewn y dalgylch

Bydd rhai partneriaethau yn cynhyrchu eu cynlluniau dalgylch neu leol eu hunain.

**Cynlluniau rheolaeth dŵr a phartneriaid eraill:** Tra bo RBMP yn darparu fframwaith hir-dymor ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr yn ardal y basn afon, mae cynifer o faterion rheolaeth dŵr yn cael eu rheoli trwy gynlluniau llywodraeth a sectorau penodol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau rheoli risg llifogydd (FRMPs), cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau bioamrywiaeth ac yn y blaen.

### 2.3. Asesiad Amgylcheddol Strategol

Prif rôl yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod paratoadau'r RBMP oedd dylanwadu ar y gwerthusiad o fesurau a roddwyd gerbron ar gyfer Ardaloedd Gweithredol a chyrff dŵr unigol (yng Nghymru), ac i osgoi neu leihau unrhyw fesurau oedd â photensial ar gyfer effeithiau adweithiau sylweddol. Mae esiamplau yn cynnwys mesurau a fyddai'n cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd hanesyddol. Roedd yr RBMP diwygiedig yn cael ei safoni trwy'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn pryd ar gyfer yr ymgynghoriad.

Defnyddiwyd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd ar gyfer rhoi gwybod am effeithiau asesiadau cenedlaethol yr RBMP a gyflawnwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac wrth ddatblygu amlinelliad i gefnogi'r RBMP diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad.

### 2.4. Asesiad Rheoliadau Cynefin

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefin wedi ei wneud ar yr RBMP diwygiedig ar gyfer yr ymgynghoriad ac ar y manylion pellach yn yr RBMP diwygiedig ar gyfer ei gyhoeddi. Mae hyn er mwyn pennu os yw'r cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd cadwraeth natur wedi eu pennu gan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar neu Gynhadledd Ramsar[1]. "Maent yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel "Safleoedd Ewropeaidd neu Natura 2000 (N2K sites)".

Mae'r RBMP diwygiedig yn gynllun strategol sy'n crynhoi ystod o gynlluniau a mesurau llywodraeth a sectorau allweddol eraill. Mae asesiad yr SEA a'r HRA yn gosod allan yr effeithiau posib ar y lefel o fanylion sydd wedi ei gyflwyno ond heb fanylion natur na graddfa'r gweithredu fydd yn cael ei ddatblygu i weithredu'r mesurau. Lle bo gweithredu'r mesurau a gynhwysir yn yr RBMP yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill yn ymrwymo i ymgymryd â SEA (Cynlluniau a strategaethau) EIA (ar gyfer prosiectau) a HRA (ar gyfer prosiectau fydd yn gallu effeithio ar safleoedd Ewropeaidd). Ymhellach at hyn bydd ein partneriaid yn sicrhau bod gweithredu'r mesurau yn cadw o fewn gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

## 3. Priodoli yr adroddiad amgylcheddol

Darganfyddodd yr Adroddiad Amgylcheddol ar y cyfan, y byddai cynllun drafft Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd ehangach. Mae'r effeithiau cadarnhaol yn bennaf yn ymwneud â mesurau i wella cynaladwyedd o arferion rheoli amaethyddol, mynd i'r afael â llygredd mewn ardaloedd dinesig a gwelliannau ar gyfer coridorau afonydd. Lle cafodd effeithiau negyddol eu hadnabod, mae lliniariad wedi ei argymell i reoli'r effeithiau hyn. Lle bo cyfleoedd i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, maent wedi cael eu cofnodi.

Mae'r adolygiad SEA wedi darganfod bod y drafft o'r RBMP yn cyfateb yn dda gydag amcanion cynlluniau a rhaglenni eraill yn Hafren, yn arbennig y rhai wedi eu hanelu ar hyrwyddo cynaladwyedd a chadwraeth natur. Mae hefyd wedi ei ddatblygu mewn perthynas â chynllun drafft perygl llifogydd i sicrhau bod aliniad i'r amcanion perygl llifogydd ac amgylchedd dŵr fel ei gilydd.

---

[1] Habitats Directive: Council Directive 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora
Birds Directive: Directive 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor 30 Tachwedd 2009 ar gadwraeth adar gwyllt
Cynhadledd Ramsar: (Cynhadledd ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, fel Cynefin Adar y dŵr) 1971

Roedd y darganfyddiadau i'w disgwyl o gymryd mai amcan allweddol cynllun Rheolaeth Basn Afon Hafren yw darparu fframwaith ar gyfer gwarchod ac ehangu cyrff dŵr mewn ardaloedd basn afon. Mae crynodeb o'r darganfyddiadau yn Nhabl 1 yn dangos bod effeithiau adweithiol y cynllun yn lleol o ran natur ac yn dibynnu ar natur a chynllun y gweithredu a fyddai yn cael ei ddatblygu a'i ddewis ar gyfer lleoliadau penodol, yn ogystal â materion lleol amgylcheddol sensitif. Byddai lliniariad o effeithiau adweithiol a chyfleoedd i weithredu a buddion amgylcheddol ehangach yn cael eu hadnabod yn yr Adroddiad Amgylcheddol ac yn cael eu hystyried yn addas i'w gweithredu yn ystod gweithrediad y rhaglen o fesurau.

## Tabl 1: Crynodeb o brif effeithiau RBMP Afon Hafren (o'r Adroddiad Amgylcheddol)

| Derbynnydd SEA | Crynodeb o effeithiau | Lliniariad a chyfleoedd |
|---|---|---|
| **Dŵr** | Effeithiau cadarnhaol sylweddol yn y tymor hir mewn perthynas â gwelliannau i ansawdd dŵr<br><br>Effeithiau negyddol lleol byr dymor ar argaeledd dŵr ar gyfer echdyniad | Trwy adnabod yr effeithau negyddol, gellid eu lliniaru trwy ddarparu addysg ac ymwybyddiaeth ar reoli dŵr yn ofalus; annog defnyddio dŵr yn effeithiol ac mewn rhai achosion adnabod cyflenwadau dŵr eraill. |
| **Poblogaeth a iechyd y cyhoedd** | **Effeithiau lleol cadarnhaol ar gynhyrchu amaethyddol yn yr hir dymor mewn perthynas â gwelliannau mewn ymarferion rheolaeth tir fyddai'n cynorthwyo i leihau erydiad pridd a cholli maetholion a gwella argaeledd dŵr ar gyfer dyfrhau a da byw.**<br><br>**Effeithiau lleol negyddol ar gynhyrchu amaethyddol yn y byr dymor i dymor canolig yn ardal Aber Afon Hafren o reolaeth arfordirol a chreu cynefinoedd.**<br><br>Effeithiau cadarnhaol lleol ar reoli llif afon a dŵr wyneb a dŵr ffo o dir amaethyddol ac ardaloedd trefol wrth wella cyfyngiad a storio dŵr a helpu i leihau perygl llifogydd mewn cymunedau ac isadeiledd<br><br>Effeithiau cadarnhaol lleol ar hamdden a thwristiaeth trwy ansawdd dŵr gwell, pysgodfeydd a choridorau afonydd deniadol – sy'n golygu bod mwy yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. | **Gellid lliniaru'r potensial o effaith negyddol ar gynhyrchu amaethyddol trwy osgoi tir amaeth o radd uchel ac addasu dulliau ffermio yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd fel porfa o ansawdd uchel i dda byw. Cyfleoedd ar gyfer rheolaeth tir trwy gefnogaeth cynlluniau grantiau fel stiwardiaeth a Glastir.**<br><br>Byddai cymryd rhan yn gynnar mewn diddordebau hamdden yn helpu i adnabod cyfleoedd ac osgoi unrhyw wrthdaro posib yn y defnydd o amgylchedd dŵr<br><br>Cyfleoedd i gynnwys cymunedau lleol mewn prosiectau |
| **Pridd** | Effaith cadarnhaol lleol ar bridd yn yr hir dymor o ganlyniad i leihad mewn erydiad a cholli maetholion, fel canlyniad i arferion rheoli tir gwell. | Cyfleoedd i wneud newidiadau mewn rheolaeth tir, i'w gefnogi gan gynlluniau grant fel stiwardiaeth amgylcheddol neu Glastir. |
| **Bioamrywiaeth, fflora**<br><br>**a ffawna** | Effeithiau cadarnhaol sylweddol ar fioamrywiaeth yn arbennig mewn cynefinoedd a rhywogaethau dibynnol ar ddŵr o ganlyniad i well ansawdd dŵr ac i'r graddau, amrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd. | Sefydliadau gwarchod natur a grwpiau bywyd gwyllt lleol i gymryd rhan yn gynnar er mwyn rhoi cymorth i adnabod cyfleoedd i wella bioamrywiaeth |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol** | Potensial ar gyfer effaith negyddol lleol ar asedau treftadaeth – ond yn ddibynnol ar leoliad/cynllun y mesurau<br><br>Effaith cadarnhaol lleol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol trwy wella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhad o asedau treftadaeth yn ymwneud ag amgylchedd dŵr. | Byddai dull lliniariad i effeithiau negyddol potensial yn cynnwys adnabod yn gynnar unrhyw asedau treftadaeth dynodedig ac fel arall (gan gynnwys archaeoleg) ac ymgynghoriad gyda sefydliadau treftadaeth. |
| **Tirwedd** | **Effeithiau cadarnhaol lleol ar gyfer tirwedd drefol a gwledig wedi ei gysylltu gyda chyflwyno coridorau afonydd naturiolaethol a chreu cynefinoedd** | Defnyddio strategaethau isadeiledd gwyrdd ac astudiaethau cymeriad tirwedd yn ffordd o adnabod cyfleoedd lleol. |
| **Asedion Perthnasol** | Effaith lleol cadarnhaol ar hamdden a thwristiaeth trwy well ansawdd i'r dŵr, pysgodfeydd a choridorau afonydd deniadol sydd o fudd i'r rhai fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.<br><br>Effaith cadarnhaol lleol ar reoleiddio llif afon a dŵr ffo arwyneb o dir amaethyddol ac ardaloedd trefol o wella cyfyngiad a storio dŵr er mwyn lleihau perygl llifogydd i gymunedau ac isadeiledd | Cyfleoedd lleol i wella hawliau tramwyo a rhwydweithiau Beicio<br><br>Cyfleoedd ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy i'w cynnwys yn y datblygiad newydd yn ogystal ag ardaloedd trefol yn barod, gan ei ymestyn i ardaloedd gwledig<br><br>**Gellid lliniaru'r effaith negyddol posib ar ddefnydd arall** |

| Derbynnydd SEA | Crynodeb o effeithiau | Lliniariad a chyfleoedd |
|---|---|---|
| | **Effaith lleol negyddol ar y defnydd o ddŵr ar gyfer pwrpasau eraill fel mordwyo, pŵer dŵr** | **o ddŵr trwy gynnwys yr holl ddiddordebau yn gynnar gan werthuso effaith posib ar lefel prosiect** |
| **Ffactorau hinsawdd** | **Effaith lleol cadarnhaol ar reoleiddio hinsawdd trwy greu gwlyptiroedd a gwella cynefinoedd sydd yn storio carbon.** | **Cyfleoedd lleol i greu gwlyptiroedd i storio carbon ac annog plannu coed a choetir er budd microhinsawdd lleol.** |

## 4. Priodoli barn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad amgylcheddol

Bu ymgynghoriad drafft ar RBMP Hafren a'r adroddiad amgylcheddol SEA ar agor o 10 Hydref 2014 hyd 10 Ebrill 2015. Prif gwestiynau'r ymgynghoriad SEA oedd:

- Ydych chi'n cytuno ein bod wedi asesu yn ddigonol yr effeithiau sylweddol ar Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren? Disgrifiwch unrhyw agweddau pellach y dylem ystyried os gwelwch yn dda
- Oes gennych chi gonsyrn am effeithiau amgylcheddol y cynllun rheoli basn afon sydd heb eu trafod yn yr asesiad. Disgrifiwch beth ydynt os gwelwch yn dda.
- Oes yna unrhyw gyfleoedd lliniariad eraill y dyliem ystyried wrth gyflawni'r mesurau arfaethedig?

Roedd mwyafrif llethol y bobl a ymatebodd yn cytuno gyda'r casgliadau y byddai'r cynlluniau yn arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd a'r gymdeithas gydag ystod eang o botensial i effeithiau cadarnhaol a rhai effeithiau negyddol ar yn fwy lleol. Mae'r adran hon yn cyfeirio yn unig at y farn a fynegwyd mewn perthynas â'r Adroddiad Amgylcheddol.

Mae dogfennau ymatebiad yr ymgynghoriad wedi eu cynhyrchu yn genedlaethol gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn cynnwys adrannau sy'n crynhoi'r prif themâu o ymgynghoriad Adroddiad Amgylcheddol yr SEA a sut i ymateb iddynt:

Asiantaeth yr Amgylchedd

https://www.gov.uk/government/consultations/update-to-the-draft-river-basin-management-plans

Cyfoeth Naturiol Cymru

https://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations-closed/publishing-our-results-for-the-consultation-on-updating-the-river-basin-management-plans/?lang=en

Roedd ystod o ymatebion perthnasol uniongyrchol i'r Adroddiad Amgylcheddol ar Hafren ac mae'r rhain wedi eu crynhoi yn Nhabl 2

Roedd hefyd ystod o ymatebion oedd yn berthnasol i holl RBD yn Lloegr ac felly yn cymhwyso i RBMP Hafren yn ogystal â chynlluniau Rheoli Basn Afonydd eraill, ac mae'r wybodaeth ar gael yn Nhabl 3.

**Tabl 2: Crynodeb o ymatebion ymgynghoriad ar gyfer RBMP Hafren – Datganiad Manylion**

| Prif themâu'r ymatebion | Esiamplau<br>( ) = prif ffynhonnell y sylwadau | Sut y cafodd y materion eu hystyried |
|---|---|---|
| Lliniariad cyflenwad dŵr trawsffiniol | Nid yw cyflenwadau dŵr amgen o Gymru yn cefnogi lliniariad (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Bydd mesurau RBMP Cymru a lliniariadau yn cael eu cymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Priodoli i HRA | Dylai HRA ddylanwadau ar yr RBMP terfynol (Cyfoeth Naturiol Cymru))<br>Dylai HRA trawsffiniol fod yn amodol ar gydweithio (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Gwnaethpwyd yr HRA ar gyfer y drafft o'r RBMP, oedd yn datgan y paratoadau ar gyfer yr RBMP terfynol. |
| Gwaelodlin SEA | Mewn cyd-destun amgylcheddol dylai unrhyw fater ar gyfer safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'i gysylltu â'r Adolygiad o echdyniad (abstactions) gael ei bwysleisio (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Daw'r cyd destun amgylcheddol o ymgynghoriad "Challenges and Choices" (2013) ac wedi ei ddiweddaru ar gyfer diweddariad y RBMP. Nid oes cyfeiriad uniongyrchol at y broses Adolygad o Gydsynio", er bod diffyg llif yn cael ei gyfeirio ato mewn termau cyffredinol. Mae'r mater hefyd yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn yr HRA. |
| Eglurder SEA | Cefnogaeth ar gyfer dal gwasanaethau ecosystemau, ond bod angen mwy o eglurder ar y data a ddefnyddiwyd yn yr asesiad (Wessex Water)<br><br>Anhawster wrth asesu cynlluniau mesur (sector trawsgludiad)<br><br>Eglurder ar y canlynol (gan Cyfoeth Naturiol Cymru):<br>- Amcanion yr RBMP<br>- Pwrpas yr SEA<br>- Gwerthusiad safle ac ymgynghoriad cyfranddalwyr heb fod yn lliniariad penodol, ond prosesau i hysbysu lliniariad | Bydd lefelau o asesiadau yn lefel y prosiectau yn fwy penodol yn ei ystyriaeth o effeithiau.<br><br>Ystyriaeth ym mharatoadau o'r SEA ar gyfer yr RBMP terfynol. |
| Proses SEA | Ni ddylai arwyddocâd effeithiau ddibynnu ar werthoedd ariannol (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Ni ddylai gohirio asesiadau i haenau is achosi cyfaddawd i'r SEA (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Angen ystyriaethau gan wasanaethau ecosystemau o'r rhyngberthynas rhwng topigau amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br><br>Ystyriaethau o effeithiau cynyddol gyda chynlluniau eraill, yn benodol cynlluniau ar gyfer ynni llanw (Bristol Water) (sector ynni) | Wedi ei ystyried yn y paratoad o'r RBMP Asesiad Effaith (Lloegr) fel y prif offeryn cost buddiant ar gyfer yr RBMP gyda'r SEA yn rhoi tystiolaeth ansoddol.<br><br>Wedi ei ystyried yn y paratoad o'r SEA ar gyfer yr RBMP terfynol.<br><br>Ystyriodd yr SEA bolisïau a chynlluniau cyhoeddedig ar raddfa genedlaethol, cyfystyr â graddfa'r cynllun ei hun. |

| Prif themâu'r ymatebion | Esiamplau<br>( ) = prif ffynhonnell y sylwadau | Sut y cafodd y materion eu hystyried |
|---|---|---|
| Adolygiad SEA | Dylai Adolygiad Cynlluniau ystyried (o Natural England,Cyfoeth Naturiol Cymru, Severn Rivers Trust, Shropshire Hills AONB):<br>- cynlluniau datblygu lleol<br>- cynlluniau perygl llifogydd<br>- cynlluniau rheoli maetholion<br>- strategaethau adferiad afon<br>- cynlluniau cwmnïau dŵr | Bydd y rhain yn ystyriaethau allweddol ar gyfer prosiectau fydd yn gweithredu mesurau RBMP wrth ystyried effeithiau ehangach a gofynion amgylcheddol. |
| Gwerth SEA | Ystyriaeth o newidiadau hinsawdd ac effaith ar ansawdd amgylcheddol ac amgylchedd y dŵr (Partneriaeth Iechyd Dŵr Cymru)<br>Ystyriaethau amgylchedd hanesyddol ac asedau treftadaeth, gan gynnwys treftadaeth ddiwydiannol (Sefydliad Gwy a Wysg)<br>Ystyriaeth o effaith posib ar leoliadau Ewropeaidd dynodedig (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Ystyriwyd wrth baratoi’r SEA ar gyfer RBMP a pharatoadau’r RBMP terfynol.<br>Cafodd ystyriaeth wrth baratoi'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gyfer y drafft a’r fersiwn terfynol o’r RBMP. |
| Effeithiau amgylcheddol ehangach a chyfleoedd | I nodi pwysigrwydd effeithiau ehangach er mwyn gweithredu'r RBMP e.e.<br>- Ansawdd Dŵr Arfordirol a Safleoedd Ewropeaidd a’r effaith ar fioamrywiaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>- tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol). Cymeriad y dirwedd leol (Cotswolds AONB) (Natural England)<br>- hamdden a thwristiaeth (Cotswolds AONB)<br>- Rhywogaethau estron goresgynnol (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed)<br>- Safleoedd bywyd gwyllt lleol (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Amwythig)<br>- coetir hynafol (Coed Cadw)<br>- pysgodfeydd (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed)<br>- safonau dyfroedd ymdrochi (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>- ecosystemau daearol dibynnol ar ddŵr daear (Natural England)<br>- cynefin a rhywogaethau blaenoriaethol (Natural England)<br>- amgylcheddau hanesyddol ac asedau treftadaeth (Sefydliad gwy a Wysg)<br>- lliniariad effeithiau o newid hinsawdd (e.e. diriant dŵr hinsoddol anwythol) (Shropshire Hills AONB)<br>- addasiadau i newid hinsawdd (Natural England)<br>- ynni adnewyddadwy (Bristol Water) (sector ynni)<br>- tir amaeth (Undeb Amaethwyr Cymru)<br>- iechyd y cyhoedd, lles a mwynderau (sector gwasanaethau)<br>- rheoli perygl llifogydd (Cyfoeth Naturiol Cymru) | Bydd y rhain yn ystyriaethau allweddol ar gyfer prosiectau fydd yn gweithredu mesurau RBMP wrth ystyried effeithiau ehangach (cadarnhaol a negyddol) ac anghenion amgylcheddol yn ogystal â buddion ehangach ar gyfer yr amgylchedd. |

| Prif themâu'r ymatebion | Esiamplau<br>( ) = prif ffynhonnell y sylwadau | Sut y cafodd y materion eu hystyried |
|---|---|---|
| Monitro | Ystyriaeth o (gan Cyfoeth Naturiol Cymru):<br>- ystod y dangosydd arfaethedig a photensial o effeithiau sylweddol<br>- cynigion i weithredu mewn ymatebiad i fonitro’r deilliannau<br>- bod y monitro yn amodol i gytundeb trawsffiniol ar y cyd. | Eu hystyried wrth baratoi'r SEA ar gyfer yr RBMP terfynol |
| Gweithio gydag eraill | I nodi pwysigrwydd gwybodaeth leol wrth gefnogi llwyddiannau’r mesurau | Mae’n parhau i fod yn rôl gan dimau lleol sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda phartneriaid. |

**Tabl 3: Crynodeb o’r sylwadau ymgynghori ar gyfer SEA a’r holl CRhB Afonydd**

| Prif themâu'r ymatebion | Esiamplau<br>( ) = prif ffynhonnell y sylwadau | Sut y cafodd y materion eu hystyried |
|---|---|---|
| Ymdrin ag Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ( HRA) | Sut mae safleoedd unigol N2K ac effeithiau cyfunol yn cael eu hystyried (Natural England) | Wedi eu hystyried wrth baratoi'r HRA ar gyfer yr RBMP terfynol |
| Eglurder SEA | Darpariaeth ynni heb ei grybwyll fel buddiant ecosystem (sector ynni)<br>Arferion gwael mewn ffermio yn brif ffynhonnell llygredd cefn gwlad yn cael ei ddadlau (sector rheolaeth tir) | Bydd lefelau asesiad ar lefel prosiect yn fwy penodol o ran manteision, effeithiau ac anghenion lliniariad |
| Proses a Gwerth SEA | Dulliau gwasanaeth ecosystemau yn ddiffygiol mewn trylwyredd a dylanwad yn yr SEA<br>Tanwerthuso buddiant a gwerthoedd cymdeithasol ac economaidd | Roedd gan yr SEA y gallu i ddweud wrth RBMP am yr asesiad economaidd gan ddefnyddio gwasanaethau ecosystem. Roedd yn canolbwyntio ar effeithiau ansoddol manteisiol tra bo Effaith Asesiad RBMP yn darparu'r gwerthusiad cost fanteisiol gan gynnwys manteision cymdeithasol ac economaidd |

| | | |
|---|---|---|
| Effeithiau amgylcheddol ehangach | I nodi pwysigrwydd effeithiau ehangach ar gyfer gweithrediad y RBMP e.e.<br>- effeithiau echdyniadau ar ansawdd dŵr a physgod (ymddiriedolaethau afon)<br>- anfanteision i gyflenwad dŵr/sychder o ganlyniad i leihau echdyniad (sector gwasanaethau)<br>- anfanteision i fordwyo hamdden o’r cynllun (sector cychod)<br>- colli cyfleoedd ar gyfer pŵer dŵr o’r cynllun (sector ynni)<br>- manteision pysgod/pysgota heb eu crybwyll<br>- anfanteision i amaethyddiaeth o gynllun wedi ei or-ddweud (Sector NGO) | Bydd y rhain yn ystyriaethau allweddol ar gyfer prosiectau sydd yn gweithredu mesurau RBMP wrth asesu effeithiau ehangach a gofynion amgylcheddol |
| Cynlluniau eraill | Y modd y mae RBMP yn cefnogi Ardaloedd Cadwriaethol Morwrol yn aneglur (Natural England) | Wedi ei ystyried wrth baratoi'r RBMP terfynol gyda rhai manylion heb eu disgwyl hyd nes y bydd datblygiad yn y gweithrediadau. |

## 5. Rhesymau dros fabwysiadu RBMP Hafren yn ei ffurf derfynol

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar ymatebion i ymgynghoriad RBMP a'r FRMP. Mae llawer o'r adborth a dderbyniwyd yn gefnogol i'r argymhellion drafft, ond mae nifer o sylwadau yn amlygu ardaloedd ar gyfer gwelliant gan gynnwys:

- mwy o wybodaeth ar yr ymdriniaeth a'r dulliau a ddefnyddiwyd
- parhau i weithio gyda phartneriaethau, gydag integreiddio pellach o gynllunio a gweithrediad
- yr holl sectorau i chwarae eu rhan wrth wella'r amgylchedd a rheoli perygl llifogydd
- Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro cynnydd yn well a rhannu'r canlyniadau
- Mwy o eglurder a mynediad gwell i wybodaeth y mae'r cynlluniau wedi ei seilio arnynt
- Fel canlyniad i'r adborth, gwnaed newidiadau i'r cynlluniau rheoli basn afon a chynlluniau perygl llifogydd terfynol, gan gynnwys gwelliannau i fformat a strwythur y cynlluniau. Mae sylwadau manylach ar agweddau penodol o'r cynlluniau yn helpu i siapio a gwella'r data a'r wybodaeth sydd yn ffurfio seiliau'r cynlluniau a'u gweithrediad.
- Penderfynodd yr Adroddiad Amgylcheddol bod y Cynllun yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd, yn arbennig mewn perthynas â dŵr a bioamrywiaeth yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl ac asedau perthnasol. Daeth i benderfyniad hefyd y byddai unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o'i liniaru yn ystod gweithrediad. Daeth yr HRA i gasgliad pellach y byddai unrhyw effeithiau lleol ar safleoedd Ewropeaidd yn debygol o gael eu hosgoi neu eu lliniaru ar lefel prosiect.

Gan gymryd y darganfyddiadau hyn i ystyriaeth a'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r RBMP fel canlyniad i ystyriaeth bellach o'r broses SEA a'r ymgynghoriad, bwriedir i'r RBMP diwygiedig gael ei fabwysiadu yn ei ffurf (cyhoeddi) derfynol.

Mae prif newidiadau'r RBMP diwygiedig wedi tynnu o gynlluniau buddsoddi llywodraeth a sectorau allweddol i adnabod pa fesurau hir dymor gwerth eu hystyried fyddai'n fforddiadwy ac yn abl i gyflawni deilliannau RBMP yng nghylch 2 erbyn 2021. Y brif raglen o fesurau ar gyfer 2021 ar gyfer RBMP afon Hafren yw:

- cynllun buddsoddi cwmni dŵr
- buddsoddi cefn gwlad (yn cynnwys 'Countryside Stewardship' yn Lloegr a Glastir yng Nghymru
- cronfa Amgylchedd Highways England
- cynllun buddsoddi rheolaeth perygl llifogydd
- grant lefel ardaloedd mewn cymorth gwelliannau yn Lloegr
- gwelliannau wedi eu hariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- cynlluniau mwyngloddiau a phyllau glo segur (mater lleol yn ardal RBMP afon Hafren)
- mesurau cynaliadwyedd adnoddau dŵr
- mesurau lleol yn fesurau arfaethedig o 10 o bartneriaethau a grwpiau dalgylch.

Wrth ddarparu cyfres o raglenni a chyfyngiad amser mwy penodol, mae'r cynllun terfynol wedi perthnasu'r rhain i ystod o fesurau ymyriad wedi eu bwriadu i edrych ar y materion rheolaeth dŵr sylweddol yn y dogfennau ymgynghorol ac wedi eu hasesu yn yr SEA. O ganlyniad, mae'r newidiadau i'r cynllun terfynol yn cael eu hystyried fel rhai na fyddai'n newid darganfyddiadau'r Adroddiad Amgylcheddol. Mae'r HRA yn ogystal wedi ystyried yr ymgynghoriad ar fesurau ac unrhyw effeithiau manylion penodol yn y cynllun terfynol. Yn gyffredinol, mae'r newidiadau i'r

RBMP a gyhoeddwyd wedi eu cwmpasu gan ddarganfyddiadau'r SEA, HRA a'r prosesau ymgynghori.

Yn ychwanegol mae datblygiad yr RBMP, yn gyfochrog â'r FRMP wedi rhoi cyfle i fabwysiadu ffordd mwy integreiddiedig o reoli dŵr yn gyffredinol. Cynhwysodd y SEA adolygiad o sut yr oedd y ddau gynllun yn perthnasu i'w gilydd ynghyd ag adolygiad ehangach o gynlluniau eraill a pholisïau perthnasol i'r RBMP.

## 6. Sut y bwriedir monitro'r effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth weithredu'r RBMP

Dengys yr adran hon sut y gosodir y gofynion ar gyfer monitro effeithiau ar yr amgylchedd o weithredu cynllun rheoli basn afon Hafren. Bydd yr RBMP yn cael ei fonitro trwy gydol ei oes er mwyn asesu os yw amcanion i wella neu gynnal safon yr amgylchedd dŵr yn cael ei gyfarfod. Wrth galon hyn bydd adroddiad blynyddol ar ddosbarthiad corff dŵr a chyhoeddi data monitro. O ystyried mai ffocws yr RBMP yw gwarchod a gwella ansawdd ecolegol cyrff dŵr, adrodd yn ôl blynyddol ar statws cyrff dŵr fydd y patrwm monitro allweddol ac nid yw wedi ei ddyblygu yn yr SEA - Asesiad Amgylcheddol Strategol, Datganiad Manylion hwn.

Bydd y dangosyddion monitro ychwanegol fydd yn cwmpasu effeithiau sylweddol ehangach fel y cawsant eu hadnabod gan yr SEA yn cael eu dangos yn Nhabl 4. Mae'r dangosyddion yn gorfod bod yn ymarferol, cost effeithiol ac yn strategol. Lle byddai'n well o bosib i'r dangosyddion allu ynysu effeithiau'r cynllun, yn ymarferol, nid yw hyn bob amser yn bosib, gyda chyfyngiadau adnoddau. Yn hytrach, bydd monitro yn gallu rhoi dealltwriaeth o dueddiadau ehangach asesu i ba raddau y bydd gweithredu RBMP yn gyson gyda'r rhain. Er mwyn cael cysondeb cenedlaethol i fonitro effeithiau'r RBMP, mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar y materion lle byddai effeithiau yn debygol ar draws y rhan fwyaf neu yn holl ardaloedd y basn afon. Bydd y rhain yn cael eu hystyried trwy rychwantu gwaelodlin ar gyfer yr SEA yn y cylch nesaf o RBMP i'w gyhoeddi yn 2021.

Bydd effeithiau prosiectau unigol yn cael eu monitro yn ôl gweithredu amgylcheddol a/neu fonitro cynlluniau a ddyfeisir yn ystod asesiad amgylcheddol ar lefel prosiect.

**Tabl 4: Gwybodaeth arfaethedig ar fonitro effeithiau sylweddol RBMP ar yr amgylchedd**

| Mater | Dangosydd | Ffynhonnell Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Bwyd (e.e. cnydau, ffrwyth, pysgod) | Ystadegau amaethyddol ar ddefnydd tir, cynhyrchedd a'r amgylchedd<br>Ystadegau Diwydiant Pysgota | Cyhoeddiad y llywodraeth ar ystadegau diwydiant amaeth a physgod<br>Ystadegau blynyddol Llywodraeth Cymru ar Dda byw a thir amaethyddol |
| Rheoleiddio Dŵr<br>(Gweler Ardaloedd dan Warchodaeth) | Monitro eisoes yn rhan o RBMP yn cynnwys statws WFD y Cyrff Dŵr. | Gwybodaeth Monitro RBMP ac adroddiadau WFD |
| Treftadaeth ddiwylliannol a gwarchod tirwedd | Statws treftadaeth allweddol a thueddiadau o gynlluniau tirwedd | Cofrestr Historic England a Cadw, rhaglenni monitro a rheolaeth<br>Cynlluniau Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| Hamdden a Thwristiaeth | Ymweliadau at amgylchedd cysylltiedig â dŵr naturiol (llynnoedd, arfordiroedd)<br>Tueddiadau mewn pysgota a chychod (lle mae ar gael) | Ymgysylltu Natural England gydag ystadegau amgylchedd naturiol<br>Tueddiadau gweithgareddau pysgota a chychod (h.y. ystadegau cenedlaethol)<br>Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru – ystadegaeth ar gyfer pysgodfeydd eogiaid a dŵr ffres |
| Ardaloedd penodedig, darpariaeth bioamrywiaeth a chynefin<br>(Gweler Ardaloedd dan Warchodaeth) | Ystadegau ansawdd SoDdGA<br>Darpariaeth cynefinoedd o gynlluniau cenedlaethol (lle bo'n digwydd) | Defra/Natural England a Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru – monitro ardaloedd penodedig a chynlluniau bioamrywiaeth |
| Newid Hinsawdd | Monitro risg o effeithiau ar ddŵr | Asesiad Risg Newid Hinsawdd DU (CCRA) |
| Ardaloedd dan Warchodaeth | Mae monitro sydd yn rhan o'r RBMP yn barod yn cynnwys:<br>Dŵr yfed<br>Dyfroedd Pysgod Cregyn<br>Dyfroedd Ymdrochi<br>Ardaloedd maetholion sensitif | **Gwybodaeth Monitro RBMP ac adroddiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**<br>Monitro penodol perthnasol ar gyfer ardaloedd dan warchodaeth (e.e. Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd Natura 2000) |

## Ydych chi am wybod mwy amdanom ni neu am eich amgylchedd?

Yna ffoniwch ni ar

**03708 506 506** (Llun i Gwener, 8am i 6pm)

e-bostiwch

**enquiries@environment-agency.gov.uk**

neu ewch i'n gwefan

**www.gov.uk/environment-agency**

llinell gymorth **0800 807060** (24 awr)

llinell llifogydd **0345 988 1188** (24 awr)

Gwybodaeth am brisiau galwadau ffôn: www.gov.uk/call-charges

Yr amgychedd gyntaf: Ydych chi'n edrych ar y sgrin? Ystyriwch yr amgylchedd drwy argraffu beth sy'n angenrheidiol yn unig. Os yn darllen copi papur, cofiwch ailgylchu os yn bosibl.